

Rhif: WG39261



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Newidiadau i ffioedd cynllunio a cheisiadau cysylltiedig

Mehefin 2020

Tabl Cynnwys

1.	Cyflwyniad	1
2.	Ymatebion	3
3.	Crynodeb o'r ymatebion	5

Atodiad

A.	Rhestr o'r ymatebwyr yn ôl categori	19
----	-------------------------------------	----

1. Cyflwyniad

- 1.1 Lanswyd y ddogfen ymgynghori 'Newidiadau i ffioedd cynllunio a cheisiadau cysylltiedig' ar 16 Rhagfyr 2019 ac roedd modd cyflwyno ymatebion iddo tan 13 Mawrth 2020. Nodwyd cyfanswm o bump o gwestiynau penodol yn y ddogfen ymgynghori, gyda ffurflen safonol er hwylustod. Gwnaed sylwadau y tu allan i'r cwestiynau safonol hefyd.
- 1.2 Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, ymateb Llywodraeth Cymru a'r camau nesaf. Fe'i rhennir yn ddwy adran arall.
- 1.3 Mae Adran 2 yn rhoi crynodeb ystadegol cyffredinol o'r ymgynghoriad a manylion ynglŷn â sut y cynhaliwyd yr ymgynghoriad.
- 1.4 Mae Adran 3 yn rhoi crynodeb o'r holl ymatebion a gyflwynwyd. Bydd hyn yn cynnwys:
 - Crynodeb o'r canfyddiadau allweddol o dan bob un o gwestiynau'r ymgynghoriad;
 - Dadansoddiad ystadegol o'r safbwyntiau a fynegwyd ar bob un o gwestiynau'r ymgynghoriad, lle y gellid llunio ystadegau;
 - Crynodeb a dadansoddiad o'r themâu allweddol sy'n deillio o bob cwestiwn;
 - Ymateb Llywodraeth Cymru i'r dadansoddiad hwnnw;
 - Esboniad o'r hyn y bydd Llywodraeth Cymru yn ei wneud yn dilyn yr ymateb i bob cwestiwn.
- 1.5 Wrth ddadansoddi a chrynhofio'r ymateb i'r ymgynghoriad hwn, ni fydd yr adroddiad hwn yn ymdrin â'r canlynol:
 - **Eglurhad a geisiwyd ynglŷn â manylion:** Bwriedir i'r prosesau newydd, pan fyddant mewn grym, gael eu hategu gan ganllawiau. Bydd y canllawiau hynny yn ceisio egluro materion manwl a godwyd yn y papur ymgynghori hwn;

Sylwadau ar achosion neu benderfyniadau unigol gerbron neu a wnaed gan Weinidogion Cymru: O ystyried rôl statudol Gweinidogion Cymru yn y broses gynllunio, nid oes modd iddynt hwy, nac unrhyw un arall yn Llywodraeth Cymru, wneud sylwadau ar benderfyniad y maent yn rhan ohono, neu y gallant fod yn rhan ohono. Pe baent yn gwneud hynny gallai ragfarnu safbwynt Llywodraeth Cymru.

 - **Materion y tu allan i gwmpas yr ymgynghoriad:** Lle y gwnaed sylwadau sy'n berthnasol i'r ymgynghoriad hwn ond mewn perthynas â materion y tu hwnt i gwmpas y cwestiwn, gwnaed pob ymdrech i'w crynhofio o dan y cwestiwn cywir. Fodd bynnag, nid ymdrinnir â sylwadau y tu allan i gylch gwaith yr ymgynghoriad hwn;

- **Sylwadau sy'n dehongli'r polisi arfaethedig a'r ddeddfwriaeth gyfredol yn anghywir:** Cyflwynwyd ymatebion sy'n gofyn am newidiadau polisi, sydd mewn gwirionedd, yn adlewyrchu'r bwriadau a nodir yn y papur ymgynghori neu'n adlewyrchu'r ddeddfwriaeth gyfredol na fydd yn cael ei newid.

2. Ymatebion

- 2.1 Ar 16 Rhagfyr 2019, hysbyswyd mwy na 200 o randdeiliaid, gan gynnwys unigolion a sefydliadau, drwy e-bost fod y ddogfen ymgynghori wedi'i chyhoeddi. Daw'r rhain o'r rhestr ymgynghori graidd a ddelir gan Gyfarwyddiaeth Gynllunio Llywodraeth Cymru. Roedd hyn yn cynnwys pob awdurdod lleol yng Nghymru, cyrff cyhoeddus, grwpiau buddiant arbennig a grwpiau eraill. Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ar wefan ymgynghori Llywodraeth Cymru.
- 2.2 Cyflwynwyd 59 o ymatebion i'r ymgynghoriad ac rydym yn ddiolchgar i bawb a ymatebodd. Mae pob ymateb i'r ymgynghoriad wedi cael ei ddarllen a'i ystyried fel rhan o'r dadansoddiad hwn.
- 2.3 Darparwyd ffurflen ymgynghori fel atodiad i'r ddogfen ymgynghori ac ar wahân ar wefan ymgynghori Llywodraeth Cymru. Gofynnwyd i ymatebwyr nodi i ba gategori o blith chwe chategori bras o ymatebwyr yr oeddent yn perthyn. Dengys Tabl 1 isod y dadansoddiad o'r ymatebwyr.

Tabl 1 – Dadansoddiad o'r Ymatebwyr		
Categori	Nifer	% y cyfanswm
Busnes / Ymgynghorwyr Cynllunio	6	10%
Awdurdodau Lleol (gan gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol)	16	28%
Asiantaeth Llywodraeth / Corff Sector Cyhoeddus Arall	25	42%
Cyrff Proffesiynol / Grwpiau Buddiant	8	13%
Y Sector Gwirfoddol	0	0%
Eraill (grwpiau eraill nas rhestrir)	4	7%
Cyfanswm	59	

- 2.4 Cododd cwestiynau 1 a 2 yn yr ymgynghoriad gwestiynau penodol ynglŷn â pholisi. Roedd y cwestiynau yn gofyn am un o'r ymatebion canlynol; 'ydw/ydyn', 'ydw/ydyn (yn amodol ar sylwadau pellach)' neu 'nac ydw/nac ydyn'. Roedd cwestiwn 3 o'r ymgynghoriad yn ceisio ymatebion meintiol mewn perthynas â'r drefn bresennol ar gyfer ffioedd er mwyn llywio ymchwil a diwygiadau yn y dyfodol. Roedd cwestiynau 4 a 5 o'r ymgynghoriad yn ymwneud yn benodol â'r effaith bosibl (naill ai cadarnhaol neu negyddol) y gall y cynigion ei chael ar yr iaith Gymraeg.
- 2.5 Cyflwynir trosolwg ystadegol o'r ymatebion yn dangos natur yr ymatebion i'r cwestiynau fel rhan o'r dadansoddiad o bob cwestiwn yn adran 3 o'r ddogfen hon. Lle nad oedd ymatebwyr wedi nodi ateb penodol, cafodd y rhain eu hystyried a'u cofnodi fel 'ddim yn gwybod'.

Tabl 2: Cwestiynau'r Ymgynghoriad	
C1	A ydych chi'n cytuno â'r cynnig i gynyddu ffioedd ceisiadau 20%, ac eithrio ffioedd ar gyfer gwasanaethau cyn cyflwyno cais? Os na, pam?
C2	A ydych yn cytuno â chyflwyno £230 o ffi ar gyfer ceisiadau am Dystysgrifau Datblygiad Arall Priodol, a wneir o dan adran 17 o Ddeddf Iawndal Tir 1961? Os na, pam?
C3	A hoffech fynegi sylwadau neu gyflwyno tystiolaeth mewn perthynas â'r drefn bresennol ar gyfer ffioedd, neu gynnig unrhyw awgrymiadau i'w gwella?
C4	Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r newidiadau i ffioedd cynllunio a cheisiadau cysylltiedig yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Pa effeithiau rydych chi'n credu y byddai? Sut y gellid gynyddu effeithiau positif a lliniaru effeithiau negyddol?
C5	Eglurwch hefyd os gwelwch yn dda sut rydych chi'n credu y gall y polisi arfaethedig ar gyfer newidiadau i ffioedd cynllunio a cheisiadau cysylltiedig gael ei lunio neu ei addasu er mwyn cael effeithiau positif ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; a peidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

- 2.6 Ceir rhestr o'r ymatebwyr a'u categorïau yn Atodiad A i'r adroddiad hwn. Os bydd ymatebwyr wedi gofyn i ni gadw unrhyw wybodaeth yn ôl, byddant yn ymddangos fel "Dienw" o dan y categori priodol, ac eithrio unigolion preifat, y bydd pob un ohonynt yn ymddangos fel "Dienw" er mwyn cydymffurfio â'r Rheoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data.

3. Crynodeb o'r ymatebion

C1	A ydych chi'n cytuno â'r cynnig i gynyddu ffioedd ceisiadau 20%, ac eithrio ffioedd ar gyfer gwasanaethau cyn cyflwyno cais? Os na, pam?
-----------	--

Crynodeb Ystadegol

Sector		Ydw/ Ydyn	Ydw/ydyn (yn amodol ar sylwadau pellach)	Nac ydw/ Nac ydyn	Ddim yn Gwybod	Cyfanswm
A	Busnesau / Ymgynghorwyr Cynllunio	0	3	3	0	6
B	Awdurdodau Lleol (gan gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol)	8	8	0	0	16
C	Asiantaeth Llywodraeth / Corff Sector Cyhoeddus Arall	5	5	6	9	25
D	Cyrff Proffesiynol / Grwpiau Buddiant	0	3	4	1	8
E	Y Sector Gwirfoddol	0	0	0	0	0
F	Eraill (grwpiau eraill nas rhestrir)	2	1	1	0	4
Cyfanswm yr holl ymatebwyr		15	20	14	10	59

	Ydw, ydyn/Ydw, ydyn yn amodol ar sylwadau	Nac ydw/ Nac ydyn
Cyfanswm yr Ymatebwyr yn nodi ymateb	35	14
Cyfanswm y Ganran	71%	29%

Adolygiad ystadegol

3.1 O'r ymatebwyr hynny a atebodd naill ai 'Ydw, ydyn', 'Ydw, ydyn (yn amodol ar sylwadau pellach)' neu 'Nac ydw, nac ydyn' i gwestiwn yr ymgynghoriad, roedd bron tri chwarter ohonynt yn cytuno â'r cynnig i gynyddu ffioedd cynllunio a cheisiadau cysylltiedig tua 20%. Ac eithrio Awdurdodau Cynllunio Lleol (ACLLau), a oedd yn cefnogi'r cynnig yn llawn, cymysg fu'r ymatebion ymhlith y grwpiau eraill o ymatebwyr. Rhoddodd 10 ymatebydd yr ateb 'Ddim yn gwybod' i'r cwestiwn.

Themâu allweddol

3.2 Roedd y themâu allweddol mewn ymateb i gwestiwn 1 fel a ganlyn:

- Cytundeb a chefnogaeth gyffredinol i'r cynnig, er y byddai'n fuddiol gwybod pam y pennwyd ffigur o 20% a chael tystiolaeth o hynny;
- Roedd y sylwadau yn awgrymu y dylid monitro perfformiad a lefelau gwasanaeth ACLlau os bydd penderfyniad i fwrw ymlaen â'r cynnig i gynyddu ffioedd cynllunio a cheisiadau cysylltiedig 20%, gan nad yw'n ymddangos fel pe bai lefelau gwasanaeth wedi gwella ers y cynnydd diwethaf mewn ffioedd;
- Mae angen i unrhyw gynnydd mewn ffioedd gael eu clustnodi o fewn adrannau cynllunio yn hytrach na'u hamsugno'n ganolog gan awdurdodau lleol os ydym am weld unrhyw fuddiannau.

Trosolwg

3.3 Yn ôl cyfran, ACLlau oedd fwyaf cefnogol i'r cynigion, gan nodi bod angen cynyddu ffioedd er mwyn helpu i adlewyrchu'r costau sy'n gysylltiedig â gwasanaeth cynllunio yn well. Er hynny, nodwyd ganddynt nad yw cynnydd o 20% yn debygol o fod yn ddigonol i helpu i gyflawni hyn. Nodwyd hefyd fod angen ateb tymor hwy er mwyn sicrhau bod digon o adnoddau ar gael ar gyfer y system yn y dyfodol, ac y dylid ymgymryd â gwaith ymchwil er mwyn canfod y gwir gost a'i hadennill. Awgrymodd dau ACLI y dylai ffioedd ar gyfer gwasanaethau cyn cyflwyno cais gael eu hadolygu a'u cynyddu hefyd, ynghyd

â cheisiadau ar gyfer Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol, a nododd ACLI arall y dylid adolygu'r costau sy'n gysylltiedig â cheisiadau hysbysebu gan fod ceisiadau o'r fath yn gosod baich ariannol sylweddol ar ACLlau.

- 3.4 Roedd ymatebwyr eraill yn cytuno â'r cynigion mewn egwyddor, ond gydag amodau amrywiol. Er enghraifft, er bod Asiantaeth Llywodraeth / Cyrff Sector Cyhoeddus Arall, dau Fusnes / Ymgynghorydd a Chorff Proffesiynol / Grŵp Buddiant yn cytuno â'r cynnig, nodwyd ganddynt fod angen gwelliannau a buddiannau pendant i'r gwasanaeth a geir a bod yn rhaid i ACLlau ddefnyddio unrhyw incwm ychwanegol o ffioedd i gau bylchau o ran adnoddau a chapasiti.
- 3.5 Awgrymwyd hefyd y dylid cynyddu'r ffioedd yn fwy er mwyn naill ai adlewyrchu'r amser ychwanegol y mae angen i swyddogion ei dreulio yn delio â cheisiadau penodol, neu fel ffordd o atal datblygiadau anawdurdodedig. Mae'r rhain yn cynnwys ffioedd ar gyfer datblygiadau masnachol, prosiectau ynni adnewyddadwy a cheisiadau ôl-weithredol.
- 3.6 Roedd dau ymatebydd o'r categori Asiantaeth Llywodraeth / Corff Sector Cyhoeddus Arall yn ystyried nad oedd consesiynau ar gyfer ffioedd cynllunio yn mynd yn ddigon pell ar hyn o bryd ac y dylent gynnwys ceisiadau gan deuluoedd incwm isel, pobl ag anabledau a cheisiadau a gyflwynir gan grwpiau gwirfoddol a chymunedol.
- 3.7 Yn olaf, nododd nifer o'r ymatebwyr fod angen i unrhyw gynnydd mewn ffioedd gael ei glustnodi o fewn adrannau cynllunio, yn hytrach na'u hamsugno i gronfa ganolog, er mwyn sicrhau bod y system gynllunio yn cael budd uniongyrchol o'r cynnydd arfaethedig.
- 3.8 O'r rhai hynny a oedd yn anghytuno â'r cynnig, y consensws cyffredinol oedd bod y cynnydd arfaethedig mewn ffioedd yn rhy uchel, yn sylweddol uwch na chwyddiant ac yn anghyson â lefel y gwasanaeth a ddarperir gan ACLlau.
- 3.9 Gwnaeth nifer o'r ymatebwyr awgrymiadau eraill o ran sut y dylid cynyddu ffioedd. Er enghraifft, awgrymodd un ymatebydd o'r categori Asiantaeth Llywodraeth / Corff Sector Cyhoeddus Arall y dylai unrhyw gynnydd fod yn gyson â dyfarniadau cyflog ar gyfer swyddi gweinyddol, proffesiynol, technegol a chlercol, a nododd ymatebydd o'r categori 'Eraill' na ddylai unrhyw gynnydd fod yn uwch na chanran y mynegai prisiau defnyddwyr. Yn yr un modd, awgrymodd ymatebydd o'r categori 'Eraill' y dylai'r ffioedd a awgrymir fod yn seiliedig ar raddfa esgynnol, yn dibynnu ar incwm yr ymgeisydd neu faint / cost datblygiad arfaethedig.
- 3.10 Nododd Busnes / Ymgynghorydd ac Asiantaeth Llywodraeth / Corff Sector Cyhoeddus Arall nad oes digon o dystiolaeth i gyfiawnhau cynnydd o 20% mewn ffioedd, ac ychwanegodd Corff Proffesiynol / Grŵp Buddiant na ddylid cario unrhyw gynnydd mewn ffioedd ymlaen nes bod rhagor o ddata yn cael eu casglu er mwyn meithrin gwell dealltwriaeth o'r broses adennill costau.

- 3.11 Codwyd pryderon hefyd ynghylch lefelau perfformiad ACLlau, ar y sail y dylai fod cydberthynas uniongyrchol rhwng unrhyw gynnydd mewn ffioedd â lefelau gwasanaeth ACLlau. Awgrymodd ymatebydd o'r categori 'Eraill' y dylid, yn hytrach na chynyddu ffioedd, ystyried y costau sy'n gysylltiedig â phrosesu ceisiadau i weld a oes ffyrdd o symleiddio a lleihau costau. Yn yr un modd, nododd Busnes / Ymgynghorydd, er y gall cynnydd mewn ffioedd arwain at fwy o effeithlonrwydd, nad yw hynny wedi digwydd yn y gorffennol.
- 3.12 Nododd Asiantaeth Llywodraeth / Corff Sector Cyhoeddus Arall fod y system gynllunio yn gweithio er budd y cyhoedd yn ogystal â budd preifat datblygwyr, ac felly na ddylai ffioedd gael eu cynyddu nes bod cost y gwasanaeth yn cael ei chodi'n gyfartal rhwng ffioedd datblygwyr a'r cyhoedd, drwy drethiant lleol.
- 3.13 Yn olaf, cafwyd awgrym o'r categori Cyrff Proffesiynol / Grwpiau Buddiant na ddylai cyllid ychwanegol ar gyfer ACLlau gael ei gasglu oddi wrth y rhai y mae'n rhaid iddynt ddefnyddio'r system gynllunio fwyaf yn ôl y gyfraith, fel perchennogion adeiladau hanesyddol. Nodwyd na ddylid gwneud hynny gan mai gwaith cynnal a chadw ac atgyweirio hanfodol yw'r gwaith hwn yn gyffredinol, ac na chaiff ei wneud er budd preifat.

Ymateb Llywodraeth Cymru

- 3.14 Rydym yn cydnabod y pryderon a godwyd gan ymatebwyr ynghylch y cynnydd arfaethedig mewn ffioedd ac yn cytuno y dylai unrhyw gynnydd arwain at welliant cyfatebol o ran lefelau gwasanaeth ACLlau. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i fonitro perfformiad ACLlau drwy ddata a gesglir drwy adroddiadau'r Arolygon Chwarterol Rheoli Datblygu.
- 3.15 Fodd bynnag, mae'n rhaid taro cydbwysedd rhwng sicrhau bod ACLlau yn gallu adennill mwy o'u costau er mwyn darparu gwasanaeth rheoli datblygu digonol ac amserol a pheidio â rhoi ymgeiswyr o dan anfantais drwy bennu ffioedd anghymesur, neu annog pobl i beidio â defnyddio'r system gynllunio. Ar y sail hon, ystyriwn fod y cynnydd arfaethedig o 20% mewn ffioedd yn briodol i gyflawni'r nod hwn. Rydym yn cydnabod na fydd y cynnydd hwn, o bosibl, yn ddigon i alluogi ACLlau i adennill eu costau'n llawn. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn parhau i fod yn ymrwymedig i gynnal gwaith ymchwil i'r costau sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaeth rheoli datblygu, er mwyn sicrhau y gall y gwasanaeth hwnnw adennill ei gostau.
- 3.16 O ran buddiannau posibl y system gynllunio, er bod achosion lle y defnyddir y system gynllunio er budd y cyhoedd, rydym yn cydnabod mai er budd preifat y cyflwynir y mwyafrif o'r ceisiadau. Felly, nid ydym yn ystyried ei bod yn briodol gofyn i'r cyhoedd dalu am fuddiannau preifat o'r fath, na'u sybsideiddio yn y bôn, drwy drethiant.
- 3.17 O ran adeiladau hanesyddol, ni chodir ffioedd ar hyn o bryd ar gyfer cynigion y mae angen cydsyniad adeilad rhestredig arnynt ac nid yw'r ymgynghoriad hwn yn ystyried a ddylid cyflwyno ffioedd ar gyfer y ceisiadau hyn ar hyn o bryd.

- 3.18 Caiff sylwadau eraill a wnaed eu hystyried fel tystiolaeth i gefnogi gwaith ymchwil i ddiwygiadau pellach i ffioedd cynllunio a cheisiadau cysylltiedig.

Y camau nesaf

- 3.19 Cynigir y dylid bwrw ymlaen â'n cynigion i gynyddu ffioedd cynllunio a cheisiadau cysylltiedig tua 20%, fel y nodir yn Atodiad A i'r papur ymgynghori "Newidiadau i ffioedd cynllunio a cheisiadau cysylltiedig" (16 Rhagfyr 2019).

C2	A ydych yn cytuno â chyflwyno £230 o ffi ar gyfer ceisiadau am Dystysgrifau Datblygiad Arall Priodol, a wneir o dan adran 17 o Ddeddf Iawndal Tir 1961? Os na, pam?
-----------	---

**Crynodeb
b
Ystadegol**

Sector		Ydw/ Ydyn	Ydw/Ydyn (yn amodol ar sylwadau pellach)	Nac ydw/ Nac ydyn	Ddim yn Gwybod	C y f a n s w m
A	Busnesau / Ymgynghorwyr Cynllunio	5	0	1	0	6
B	Awdurdodau Lleol (gan gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol)	7	8	1	0	16
C	Asiantaeth Llywodraeth / Corff Sector Cyhoeddus Arall	8	4	4	9	25
D	Cyrff Proffesiynol / Grwpiau Buddiant	1	1	2	4	8
E	Y Sector Gwirfoddol	0	0	0	0	0
F	Eraill (grwpiau eraill nas rhestrir)	2	0	1	1	4
Cyfanswm yr holl ymatebwyr		23	13	9	14	5 9

	Ydw, ydyn/Ydw, ydyn yn amodol ar sylwadau	Nac ydw/ Nac ydy
Cyfanswm yr Ymatebwyr yn nodi ymateb	35	9
Cyfanswm y Ganran	80%	20%

Adolygiad ystadegol

3.20 O'r ymatebwyr hynny a atebodd naill ai 'Ydw, ydyn', 'Ydw, ydyn (yn amodol ar sylwadau pellach)' neu 'Nac ydw, nac ydyn' i'r cwestiwn hwn, roedd y mwyafrif sylweddol ohonynt yn cytuno â'r cynnig i gyflwyno ffi o £230 ar gyfer ceisiadau am Dystysgrifau Datblygiad Arall Priodol. Ac eithrio Cyrff Proffesiynol / Grwpiau Buddiant, roedd y mwyafrif o'r holl grwpiau eraill yn cytuno â'r cynnig. Fodd bynnag, nid ymatebodd bron chwarter yr holl ymatebwyr i'r cwestiwn hwn.

Themâu allweddol

3.21 Roedd y themâu allweddol mewn ymateb i gwestiwn 2 fel a ganlyn:

- Roedd y mwyafrif helaeth o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig;
- Dylai'r ffi arfaethedig fod yn uwch na £230 o bosibl er mwyn iddi gwmpasu'r costau yr eir iddynt gan ACLlau mewn gwirionedd wrth ddarparu'r gwasanaeth hwn;
- Dylid ystyried cyflwyno ffioedd amrywiadwy yn seiliedig ar y math o ddatblygiad, ei categori a'i faint, yn hytrach na ffi safonol.

Trosolwg

3.22 Er bod y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig, cyflwynwyd nifer o sylwadau yn holi sut y pennwyd y ffi arfaethedig o £230 a ph'un a fyddai'r ffi honno'n ddigonol i gwmpasu'r costau sy'n gysylltiedig â phenderfynu ar y cyfryw geisiadau. Er enghraifft, awgrymodd dau ACLlau y dylai'r ffi arfaethedig fod yn uwch er mwyn adlewyrchu gwir gost yr amser, yr adnoddau a'r arbenigedd sydd eu hangen. Nododd un o'r ACLlau hyn y dylai'r ffi fod yn £460, a nododd ymatebydd o'r categori Asiantaeth Llywodraeth / Corff Sector Cyhoeddus Arall y dylai fod yn agosach at £500.

3.23 Roedd sylwadau ychwanegol gan y rhai a oedd yn cytuno y dylid cyflwyno ffi ar gyfer ceisiadau yn ymwneud â Thystysgrifau Datblygiad Arall Priodol yn nodi bod yn rhaid sicrhau gwelliant cyfatebol o ran lefelau gwasanaeth

ACLIau ac y dylai'r ffi fod yn amrywiadwy o bosibl, yn seiliedig ar faint / graddfa'r datblygiad arfaethedig.

- 3.24 Roedd y sawl a oedd yn anghytuno â'r cynnig yn mynnu nad oes digon o wybodaeth ar gael i gyfiawnhau'r ffi arfaethedig ac nad oes angen cyflwyno ffi ar gyfer y mathau hyn o geisiadau. Yn yr un modd ag ymatebydd a oedd yn cytuno â'r cynnig, awgrymodd ACLI y dylid defnyddio ffi sy'n cyfateb i'r categori / math o ddatblygiad yn hytrach na ffi safonol. Yn olaf, nododd ymatebydd o'r categori Cyrff Proffesiynol / Grwpiau Buddiant fod Gorchmynion Prynu Gorfodol eisoes yn tarfu ar fusnesau, ac na ddylai perchenogion tir gael eu llethu ymhellach gan ffioedd wrth wneud cais am Dystysgrif Datblygiad Arall Priodol.

Ymateb Llywodraeth Cymru

- 3.25 Ystyrir bod modd cymharu lefel yr adnoddau a'r amser sydd eu hangen i benderfynu ar gais am Dystysgrif Datblygiad Arall Priodol â cheisiadau a wneir am Dystysgrif Defnydd o Ddatblygiad Cyfreithlon.
- 3.26 Mae'r papur ymgynghori 'Newidiadau i ffioedd cynllunio a cheisiadau cysylltiedig' yn cynnig y dylid cynyddu ffioedd ar gyfer ceisiadau a wneir o dan adran 191(1)(c) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, sy'n ymwneud â Thystysgrifau Defnydd o Ddatblygiad Cyfreithlon, i £230. Felly, ystyriwn fod y ffi hon yn briodol ac yn deg ar gyfer ceisiadau sy'n ymwneud â Thystysgrifau Datblygiad Arall Priodol.
- 3.27 Rydym yn cydnabod y sylwadau a wnaed mewn perthynas â lefel y ffi a'r ffordd y caiff ei chyfrifo, a chaiff y cyfryw sylwadau eu hystyried fel tystiolaeth i gefnogi gwaith ymchwil i ddiwygiadau pellach i ffioedd cynllunio a cheisiadau cysylltiedig.

Y camau nesaf

- 3.28 Cynigir y dylid bwrw ymlaen â'n cynigion i gyflwyno ffi o £230 a fyddai'n daladwy i'r ACLI perthnasol wrth gyflwyno cais am Dystysgrif Datblygiad Arall Priodol.

C3

A hoffech fynegi sylwadau neu gyflwyno tystiolaeth mewn perthynas â'r drefn bresennol ar gyfer ffioedd, neu gynnig unrhyw awgrymiadau i'w gwella?

Gan mai gofyn am wybodaeth ansoddol oedd y cwestiwn hwn, ni ddarperir unrhyw ddadansoddiad ystadegol.

Cyhoeddi sylwadau trydydd partïon

3.29 Gwnaeth chwe Asiantaeth Llywodraeth / Corff Sector Cyhoeddus Arall argymhell y dylai'r costau sy'n gysylltiedig â chyhoeddi sylwadau trydydd partïon ar wefannau ACLlau gael eu cynnwys mewn ffioedd cynllunio, oherwydd awgrymwyd nad yw pob ACLI yn cyhoeddi'r cyfryw sylwadau, a hynny ar sail cyfyngiadau ariannol.

Prosesau a darparu gwasanaethau

3.30 Tynnodd Busnes / Ymgynghorydd Cynllunio sylw at yr anghysondeb rhwng ACLlau a'r ffordd y caiff ceisiadau eu penderfynu. Er y gall cynnydd mewn ffioedd arwain at berfformiad gwell, nododd nad oedd hynny wedi digwydd yn y gorffennol. Awgrymwyd y dylid adolygu prosesau a gweithdrefnau a'u cyflwyno ym mhob ACLI.

3.31 Gwnaethpwyd sylw tebyg gan ymatebydd o'r categori Asiantaeth Llywodraeth / Corff Sector Cyhoeddus Arall, a oedd yn mynnu na fyddai'n deg cau bylchau yng nghyllid ACLlau drwy drosglwyddo'r costau i ddatblygwyr gan fod angen gweledigaeth strategol ehangach ar gyfer y broses o ddarparu gwasanaethau. Nododd Asiantaeth Llywodraeth / Corff Sector Cyhoeddus arall na ddylid cynyddu ffioedd o gwbl gan na fyddai hynny'n arwain at unrhyw welliannau i'r ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu.

Codi tâl am rai ceisiadau a chynyddu ffioedd ar gyfer rhai eraill

3.32 Roedd nifer o'r ymatebion a gyflwynwyd yn awgrymu y dylid ystyried codi tâl am rai ceisiadau na chodir ffi amdanynt ar hyn o bryd a chodi ffioedd uwch na'r hyn a gynnigir ar gyfer rhai ceisiadau.

3.33 Roedd rhai ymatebion ym mhob categori o ymatebydd yn cynnig y dylid cynyddu ffioedd ar gyfer:

- Ceisiadau yn ymwneud â thyrbinau gwynt;
- Ceisiadau a gyflwynir o dan adran 73 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990;
- Ceisiadau ôl-weithredol

3.34 Roedd yr ymatebwyr yn dadlau y byddai'r ffioedd arfaethedig ar gyfer y mathau hyn o geisiadau yn dal i fethu ag adlewyrchu'r amser a'r adnoddau a ddefnyddir gan ACLlau i benderfynu arnynt ac felly na fyddai'r costau yn cael

eu hadennill o hyd. Awgrymwyd hefyd, pe bai ffioedd yn cael eu cynyddu ar gyfer ceisiadau ôl-weithredol, y gall hyn atal datblygiad anawdurdodedig.

3.35 Roedd rhai ymatebion ym mhob categori o ymatebydd yn cynnig cyflwyno ffioedd ar gyfer:

- Gwaith yn ymwneud â gorfodi;
- Barn sgrinio a chwmpasu;
- Ceisiadau am Ganiatâd Adeilad Rhestredig a Chaniatâd Ardal Gadwraeth;
- Ceisiadau am Orchmynion Diogelu Coed;
- Dileu neu amrywio cytundebau adran 106;
- 'Troeon am ddim' ar gyfer ceisiadau a wrthodir / a dynnir yn ôl.

3.36 Roedd yr ymatebwyr yn dadlau nad oes ffioedd yn cael eu codi ar hyn o bryd am unrhyw un o'r ceisiadau hyn na gwaith sy'n gysylltiedig ag atal datblygiad anawdurdodedig, er bod yn rhaid i ACLlau dreulio amser a defnyddio adnoddau i benderfynu ar y cyfryw geisiadau a gweinyddu'r cyfryw brosesau. Dylent felly fod yn gallu adennill eu costau.

3.37 Cynigiodd rhai ymatebwyr y dylid newid ffioedd mewn perthynas â'r canlynol:

- Cymeradwyo amodau. Awgrymwyd y dylid codi am hyn fesul amod ac yn ôl y math o gais er mwyn adlewyrchu'r amser a'r adnoddau yn fwy cywir;
- Ffioedd ar gyfer adeiladau amaethyddol. Nododd un sylw fod y ffioedd hyn yn rhy uchel ar gyfer lefel y gwaith sydd ei hangen i benderfynu ar y ceisiadau hyn;
- Ad-daliadau. Nododd ymatebydd na ddylid ad-dalu ffioedd cynllunio gan ei fod yn gosod pwysau diangen ar ACLlau.

Gwaith ymchwil pellach i'r broses o adennill costau

3.38 Roedd pedwar ymatebydd yn anghytuno â'r cynnig i gynyddu ffioedd cynllunio, gan nodi y dylid ymgymryd â gwaith ymchwil pellach i'r gwir broses o adennill costau, fel y trafodir yn y papur ymgynghori, fel mater o flaenoriaeth.

3.39 Aeth ymatebydd o'r categori Asiantaeth Llywodraeth / Corff Sector Cyhoeddus Arall ymlaen i egluro nad yw'n dderbyniol disgwyl i ymgeiswyr dalu ffioedd sy'n cynyddu'n barhaus os nad oes cynnydd cyfatebol yn ansawdd y gwasanaeth ac felly na ddylai unrhyw gynnydd mewn ffioedd ddigwydd nes y bydd y cyfryw waith ymchwil wedi'i gynnal.

3.40 Roedd Corff Proffesiynol / Grŵp Buddiant hefyd o blaid cynnal gwaith ymchwil manwl i'r broses o adennill costau. Fodd bynnag, nid oedd yn cytuno y dylai ffioedd gyfateb yn uniongyrchol â'r costau yr eir iddynt wrth redeg gwasanaeth cynllunio.

Sut y caiff ffioedd eu pennu

- 3.41 Mae sylwadau a wnaed gan y categori Asiantaeth Llywodraeth / Corff Sector Cyhoeddus Arall yn nodi y dylai ffioedd gael eu pennu yn unol â graddfa datblygiad yn hytrach na maint y tir sy'n cael ei ddatblygu gan ei bod yn ei gwneud yn haws i ddatblygwyr osod ffiniau artiffisial o amgylch safleoedd ceisiadau arfaethedig er mwyn lleihau ffioedd. Nodwyd hefyd y byddai trefn leol yn hytrach na chenedlaethol o bennu ffioedd yn well ac y dylai'r costau gael eu rhannu rhwng y cyhoedd a datblygwyr. Cafwyd sylw arall hefyd, sef na ddylai ceisiadau bach neu fân gostio mwy. Dylai fod gan swyddogion cynllunio wybodaeth leol i gynorthwyo gyda'r ceisiadau hyn a dylid adennill y ffioedd ychwanegol o geisiadau manylach, mwy o faint.
- 3.42 Roedd dau ACLI yn mynnu y dylid cynyddu ffioedd yn gynyddrannol ar sail flynyddol er mwyn adlewyrchu'r gwir gost o ddarparu gwasanaeth cynllunio effeithiol, a soniodd ACL arall am ddatblygiadau yn cael eu rhannu er mwyn talu ffioedd gostyngol oherwydd y ffordd y caiff ffioedd eu codi ar hyn o bryd.
- 3.43 Awgrymodd ACLI arall y dylid ystyried ffactorau eraill a all ddylanwadu ar gostau, fel galwadau cynyddol o ran yr amser y mae swyddogion yn ei dreulio yn penderfynu ar geisiadau o ganlyniad i weithdrefnau a pholisïau newydd, y wybodaeth sydd ei hangen i gefnogi ceisiadau a lefelau ymgynghori / cyhoedduswydd.
- 3.44 Nododd Corff Proffesiynol / Grŵp Buddiant, lle mae angen lefel o arbenigedd ar gyfer ceisiadau penodol, fel mwynau, y dylid ystyried pennu cyfradd yr awr, a allai wedyn gan ei hategu gan ffi gofrestru sefydlog.

Clustnodi ffioedd o fewn adrannau cynllunio

- 3.45 Nododd ymatebydd o'r categori Asiantaeth Llywodraeth / Corff Sector Cyhoeddus Arall ac ymatebydd o'r categori Busnes / Ymgynghorydd Cynllunio fod yn rhaid i unrhyw gynnydd mewn ffioedd cynllunio gael ei glustnodi o fewn adrannau cynllunio yn hytrach na mynd i gronfa ganolog er mwyn gweld unrhyw fuddiannau o'r cynnydd.

Unrhyw sylwadau eraill

- 3.46 Roedd ymatebydd o'r categori Asiantaeth Llywodraeth / Corff Sector Cyhoeddus Arall yn anghytuno â'r cynnig i gynyddu ffioedd gan fod disgwyl i ymgeiswyr dalu nid yn unig am y costau sy'n gysylltiedig â phenderfynu ar gais, ond hefyd am agweddau fel ecoleg ac adroddiadau ar goed.
- 3.47 Hoffai Corff Proffesiynol / Grŵp Buddiant weld Cytundebau Perfformiad Cynllunio yn cael eu ffurfioli mewn deddfwriaeth, gan y byddai hyn yn rhoi mwy o sicrwydd o ran amserlenni penderfyniadau.
- 3.48 Nododd ymatebydd arall o'r categori Corff Proffesiynol / Grŵp Buddiant y dylid ystyried ansawdd cyflwyniadau gan drydydd partiön, gan y gall hyn effeithio ar

yr amser a gymerir i benderfynu ar geisiadau. Nododd hefyd y dylai arferion gorau a'r gwersi a ddysgwyd gael eu rhannu rhwng cenedl wladwriaethau.

- 3.49 Nododd Corff Proffesiynol / Grŵp Buddiant arall y byddai'r broses o adennill costau'n llawn ar gyfer ceisiadau gan ddeiliaid tai yn rhy ddrudd i ymgeiswyr ac felly byddai angen iddi gael ei hategu gan ffioedd ar gyfer ceisiadau mawr. Fodd bynnag, holwyd a fyddai hyn yn briodol.
- 3.50 Roedd ymatebydd o'r categori 'Eraill' yn mynnu y dylid rhoi mesurau llymach ar waith i ddatblygwyr sydd am adeiladu mwy nag un tŷ newydd ac y dylai rheolau a ffioedd gael eu llacio i'r rhai sydd am adeiladu un tŷ sydd ag effaith amgylcheddol isel.
- 3.51 Awgrymodd ACLI y dylai fod ffi ar wahân ar gyfer Datblygiad Un Blaned ac y dylid cynnwys ffioedd monitro oherwydd, yn aml, gallant ddefnyddio llawer o adnoddau.

Ymateb Llywodraeth Cymru

- 3.52 Rydym yn cytuno y dylai'r system gynllunio fod yn agored, yn deg ac yn dryloyw, ac y dylai sylwadau gan drydydd partïon gael eu cyhoeddi ar wefannau awdurdodau lleol lle y bo'n bosibl. Fodd bynnag, weithiau nid yw'n bosibl cyhoeddi rhai sylwadau ar-lein oherwydd materion diogelwch. Er enghraifft, gwybodaeth bersonol mewn deiseb lle nad yw'r llofnodwr wedi cydsynio i gyhoeddi'r wybodaeth a roddwyd ganddo, neu lle nad yw'n ymwybodol y caiff y wybodaeth honno ei chyhoeddi.
- 3.53 Wrth benderfynu ar geisiadau, yn aml mae'n rhaid i ACLlau ofyn am gyngor arbenigol gan gydweithwyr mewn adrannau eraill, fel cyngor ar ecoleg neu'r amgylchedd hanesyddol. Gan fod hyn yn rhan o'r broses benderfynu, ystyriwn ei bod yn briodol i ffioedd cynllunio gwmpasu'r elfen hon o'r broses benderfynu, os bydd angen.
- 3.54 Mae ACLlau ac ymgeiswyr yn ymrwmo i Gytundebau Perfformiad Cynllunio fel ffordd o gytuno ar amserlenni, gweithredoedd ac adnoddau ar gyfer ymdrin â cheisiadau penodol. Er ein bod yn cytuno ag egwyddor y cytundebau hyn o dan yr amgylchiadau cywir, nid ystyriwn ei bod yn briodol eu ffurfioli ar y cam hwn.
- 3.55 O ran rhannu arferion gorau, mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i weithio gyda'r genedl wladwriaethau i rannu unrhyw wersi a ddysgwyd, a bydd yn parhau i rannu profiadau ac arferion gorau er mwyn sicrhau bod y system gynllunio yng Nghymru yn gweithredu er budd pob parti dan sylw.
- 3.56 Caiff pob sylw a wnaed mewn perthynas â ffioedd fel rhan o'r ymateb hwn ei ystyried wrth ymgymryd â gwaith ymchwil manwl pellach i'r broses o adennill costau. Byddwn yn asesu unrhyw newidiadau posibl i ffioedd, y posibilrwydd o gyflwyno ffioedd ar gyfer ceisiadau na chodir ffi ar eu cyfer ar hyn o bryd a ph'un a ddylid gwneud unrhyw gonsesiynau pellach. Caiff y gwaith ymchwil ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru pan fydd ar gael.

C4

Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r newidiadau i ffioedd cynllunio a cheisiadau cysylltiedig yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Pa effeithiau rydych chi'n credu y byddai? Sut y gellid gynyddu effeithiau positif a lliniaru effeithiau negyddol?

Trosolwg

- 3.57 Ni wnaeth y mwyafrif o'r ymatebwyr ateb y cwestiwn hwn. O'r rhai a ymatebodd, methodd nifer sylweddol â gweld y cysylltiad rhwng cynigion i gynyddu ffioedd cynllunio a'r iaith Gymraeg, gan nodi na ddylid bod hyd yn oed wedi gofyn y cwestiwn ac nad yw'r cynigion yn debygol o gael unrhyw effaith.
- 3.58 Nododd ymatebydd o'r categori Asiantaeth Llywodraeth / Corff Sector Cyhoeddus Arall y bydd cost ychwanegol yn gysylltiedig â chyfieithu ceisiadau a gyflwynir yn Gymraeg, ac felly y dylid ystyried cais mewn un iaith ac yna ychwanegu cyfradd safonol i dalu am gostau cyfieithu.

Ymateb Llywodraeth Cymru

- 3.59 Mae ceisiadau cynllunio a cheisiadau cysylltiedig ar gael yn hawdd yn Gymraeg ac yn Saesneg. Gall ymgeiswyr benderfynu ar iaith eu cais a gallant ddisgwyl yr un lefel o wasanaeth.

Y camau nesaf

- 3.60 Nid oes angen unrhyw gamau pellach.

C5	Eglurwch hefyd os gwelwch yn dda sut rydych chi'n credu y gall y polisi arfaethedig ar gyfer newidiadau i ffioedd cynllunio a cheisiadau cysylltiedig gael ei lunio neu ei addasu er mwyn cael effeithiau positif ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; a peidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
-----------	---

Trosolwg

- 3.61 Yn yr un modd â chwestiwn 4 o'r papur ymgynghori, ni wnaeth y mwyafrif o'r ymatebwyr unrhyw sylwadau mewn perthynas â'r cwestiwn hwn.
- 3.62 O'r rhai a ymatebodd, gwnaethpwyd dau sylw a oedd yn awgrymu y dylai ffioedd gael eu cynyddu rhywfaint yn fwy er mwyn sicrhau bod gwasanaethau cyfieithu ar gael yn haws. Nodwyd y gall hyn wedyn helpu i leihau oedi wrth gyhoeddi dogfennau dwyieithog.
- 3.63 Fodd bynnag, roedd sylwadau a wnaed gan ymatebydd o'r categori Asiantaeth Llywodraeth / Corff Sector Cyhoeddus Arall ac ymatebydd o'r categori Corff Proffesiynol / Grŵp Buddiant yn awgrymu y dylid codi llai am geisiadau a gyflwynir yn Gymraeg, neu hepgor y ffi yn gyfan gwbl, er mwyn annog y defnydd o'r iaith.
- 3.64 Yn yr un modd, nododd ACLI y gall cynnydd arfaethedig mewn ffioedd arwain at ganlyniadau anfwriadol mewn perthynas â swm y cyfalaf sydd ar gael i ddatblygwyr ei wario ar eu hasesiadau / datganiadau eu hunain ynghylch y Gymraeg.

Ymateb Llywodraeth Cymru

- 3.65 Mae gofyniad cyfreithiol ar ACLlau i gyhoeddi dogfennau dwyieithog ac, er ein bod yn derbyn y gall fod costau cyfieithu ynghlwm wrth hyn, naill ai i'r Gymraeg neu'r Saesneg, nid ystyriwn ei bod yn briodol trosglwyddo'r costau hyn i ymgeiswyr.
- 3.66 Er bod Llywodraeth Cymru yn annog y defnydd o'r Gymraeg a bod y system gynllunio yn gallu ymdrin â cheisiadau drwy gyfrwng y Gymraeg, nid ystyriwn ei bod yn briodol codi ffi ostyngol am geisiadau a gyflwynir yn Gymraeg, na hepgor y ffi yn gyfan gwbl.
- 3.67 Byddai hyn yn gwahaniaethu yn erbyn yr ymgeiswyr hynny sy'n dewis cyflwyno cais yn Saesneg, neu sy'n methu â chyflwyno cais yn Gymraeg am nad ydynt yn siarad yr iaith. Byddai hyn hefyd yn mynd yn groes i Erthygl 14 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.

Y camau nesaf

- 3.68 Nid oes angen unrhyw gamau pellach.

ATODIAD A – RHESTR O'R YMATEBWYR YN ÔL CATEGORI

Busnes / Ymgynghorydd Cynllunio	ACLI
Dienw	Cyngor Sir Fynwy
Talsin Ltd	Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
Roger Parry & Partners LLP	Cyngor Sir Ynys Môn
Innogy Renewables UK Ltd	Cyngor Dinas Casnewydd
Dienw	Cyngor Gwynedd
Redrow Homes	Dienw
	Awdurdodau Parciau Cenedlaethol (Ymateb ar y Cyd)
Asiantaeth Llywodraeth / Corff Sector Cyhoeddus Arall	Cyngor Sir Ceredigion
Cyngor Cymuned Aberedw	Dienw
Dienw	Dienw
Cyngor Tref Llanelli	Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Dienw	Cyngor Bro Morgannwg
Cyngor Cymuned Llantrisant	Cymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru
Dienw	Cyngor Sir Caerfyrddin
Dienw	Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Dienw	Dienw
Cyngor Cymuned Llandrinio ac Arddlin	
Dienw	Cyrff Proffesiynol / Grwpiau Buddiant
Dienw	Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi
Dienw	Undeb Amaethwyr Cymru
Dienw	CLA Cymru
Cyngor Tref Doc Penfro	Dienw
Cyngor Tref Abergele	Dienw
Cyngor Tref y Drenewydd a Llanllwchaearn	Dienw
Cyngor Cymuned Gwynllŵg	Dienw
Cyngor Cymuned Dyffryn Grwyne	Tai Hanesyddol
Cyngor Tref y Barri	
Dienw	Arall
Dienw	Dienw
Cyngor Tref Penarth	Dienw
Yr Ymddiriedolaeth Theatrau	Dienw
Dienw	Dienw
Dienw	